



Wales **Co-operative** Centre
Canolfan **Cydweithredol** Cymru

Polisi Amgylcheddol

Fersiwn: 2.3

Diweddarwyd ddiwethaf: 22 Tachwedd 2018

Perchennog: Angela Overment, Rheolwr Adnoddau Dynol a Chymorth Corfforaethol

Cynnwys

Datganiad o Ddiben.....	3
Cwmpas.....	3
Polisi	3
Gwarchod yr Amgylchedd.....	3
Gweithgareddau Gweithredol.....	3
Effeithiau Amgylcheddol Allweddol	4
Rhwymedigaethau Cydymffurfio.....	4
Yr Hierarchaeth Wastraff	5
Y Cod Eco.....	5
Cyfathrebu Materion Amgylcheddol	7
Gwelliant Parhaus.....	7
Monitro a Gwerthuso.....	8
Adolygu.....	8
Atodiad 1: Cyfrifoldebau Cyffredinol	9

Rhif y Fersiwn	Statws	Rheswm	Dyddiad
1.0	Drafft	Drafft cychwynnol gan y Prif Weithredwr	Mehefin 2014
1.1	Terfynol	Cytunwyd gan y Bwrdd	Mehefin 2014
1.2	Terfynol	Adolygiad Blynyddol y Swyddogion a'r Logo Newydd	Medi 2015
1.3	Terfynol	Adolygwyd a diwygiwyd gan y Tîm Gwyrdd a'r Tîm Uwch-reolwyr	Ionawr 2017
2.0	Drafft	Adolygwyd gan y Rheolwr Adnoddau Dynol a Chymorth Corfforaethol	Hydref 2018
2.1	Drafft	Adolygwyd gan y Prif Weithredwr	Tachwedd 2018
2.2	Drafft	Adolygwyd gan y Tîm Gwella Ansawdd	21 Tachwedd 2018
2.3	Cymeradwywyd	Cymeradwywyd gan y Prif Weithredwr	22 Tachwedd 2018

Mae Canolfan Datblygu a Hyfforddi Cydweithredol Cymru Cyfyngedig (sy'n masnachu fel Canolfan Cydweithredol Cymru) yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, rhif 24287 R.

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg. Mae fformatau eraill, er enghraifft print bras neu Braille, hefyd ar gael ar gais.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac yn anelu at ddarparu gwasanaeth o safon gyfartal yn y ddwy iaith.

Datganiad o Ddiben

- 1.1. Mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn cydnabod y rhwymedigaeth gyfreithiol a moesol i warchod yr amgylchedd, a'i wella.
- 1.2. Bwriedir i'r ddogfen hon gyfleu'n eglur ymrwymiad y Ganolfan i wella ei pherfformiad amgylcheddol trwy ei System Reoli Amgylcheddol, sy'n cynnwys:
 - Ymrwymo i warchod yr amgylchedd
 - Nodi effeithiau amgylcheddol gweithgareddau gweithredol, a'u lleihau
 - Cydymffurfio â rhwymedigaethau, gan gynnwys yr hierarchaeth wastraff a'r Cod Eco.
 - Cyfathrebu materion amgylcheddol
 - Cyfathrebu cyfrifoldebau pobl yn y sefydliad
 - Ymrwymo i wella perfformiad amgylcheddol yn barhaus
 - Gwerthuso'r trefniadau presennol

Cwmpas

- 2.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl weithrediadau Canolfan Cydweithredol Cymru ar hyd a lled holl safleoedd y sefydliad.

Polisi

Gwarchod yr Amgylchedd

- 3.1 Mae'r Ganolfan wedi ymrwymo i warchod yr amgylchedd, gan gynnwys atal llygredd a hyrwyddo arferion gwaith sy'n atal niwed a dirywiad yn yr amgylchedd naturiol.

Gweithgareddau Gweithredol

- 3.2 Mae'r Ganolfan yn cydnabod bod yna effaith amgylcheddol ynghlwm wrth bob gweithgaredd y Ganolfan, ac y bydd ei gweithgareddau gweithredol hithau hefyd yn cael effaith ar yr amgylchedd.
- 3.3 Mae swyddfa gofrestredig y Ganolfan yng Nghaerffili, ac mae ganddi safleoedd llawer llai ym Mangor, Caerfyrddin ac Abertawe. Mae yna nifer bach o weithwyr cartref.

- 3.4 Mae'r gweithgareddau ar bob safle yn rhai gweinyddol eu natur. Er bod rhai staff yn teithio'n rheolaidd yn rhan o'u swydd, mae llawer o'r staff yn gweithio mewn amgylcheddau swyddfa, nad ydynt yn peri llawer o risg i'r amgylchedd.

Effeithiau Amgylcheddol Allweddol

- 3.5 Mae'r Ganolfan wedi ymrwymo i nodi effeithiau amgylcheddol allweddol ei gweithgarwch dynol neu weithredol, asesu eu difrifoldeb, a rhoi mesurau ar waith a fydd yn lleihau'r risg lle bynnag y bo modd.

- 3.6 Mae'r Ganolfan wedi cynnal asesiad o'r risgiau amgylcheddol (sydd ar gael gan y Rheolwr Adnoddau Dynol a Chymorth Corfforaethol). Mae'r asesiad hwn wedi nodi bod yr effeithiau amgylcheddol mwyaf arwyddocaol yn deillio o:

- Allyriadau a malurion o ganlyniad i dân
- Gwaredu gwastraff
- Allyriadau o ganlyniad i deithio ar gyfer busnes

Rhwymedigaethau Cydymffurfio

- 3.7 Mae'r Ganolfan wedi ymrwymo i gydymffurfio â'r holl deddfwriaethau, ynghyd â gofynion rheoleiddiol neu ymrwymadau gwirfoddol perthnasol eraill. Bydd y rhain yn cael eu nodi yn y Gofrestr Cydymffurfiaeth, sydd ar gael gan y Rheolwr Adnoddau Dynol a Chymorth Corfforaethol.

- 3.8 Bydd y Gofrestr Cydymffurfiaeth yn cael ei chynnal gan y Rheolwr Adnoddau Dynol a Chymorth Corfforaethol ac yn cael ei hadolygu o leiaf bob blwyddyn, a hynny ar y cyd â'r Tîm Gwella Ansawdd. Bydd yr adolygiadau yn cynnwys gwiriadau cyfnodol mewn perthynas â ffynonellau deddfwriaeth amgylcheddol a thanysgrifiadau i wasanaethau sy'n darparu diweddariadau awtomatig.

- 3.9 Lle y bo hynny'n angenrheidiol, bydd y cynlluniau ar gyfer rheoli risgiau ac argyfyngau amgylcheddol yn cael eu hamlinellu yng Nghofrestr Cydymffurfiaeth y Ganolfan.

- 3.10 Yn ogystal, mae gan y Ganolfan "Gynllun Parhad Busnes" llawn ar waith, sy'n rhoi arweiniad ynghylch ymdrin ag achosion o darfu difrifol neu drychineb.


- 3.11 Oherwydd natur risg isel gweithgareddau'r busnes, ni ragwelir y bydd yna achosion o dorri cydymffurfiaeth. Fodd bynnag, lle y caiff problemau cydymffurfio eu nodi, cymerir camau i unioni'r problemau hynny a chynnal cydymffurfiaeth.

- 3.12 Bydd y Ganolfan yn cysylltu â Gweinyddwr Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd yn Groundwork cyn gynted â phosibl os bydd yna achos o ddiffyg

cydymffurfio mewn perthynas â gofyniad cyfreithiol, a lle bo'r achos hwnnw'n arwain at erlyniad, hysbysiad gorfodi neu hysbysiad atal.

Yr Hierarchaeth Wastraff

- 3.13 Mae'r Ganolfan yn defnyddio'r hierarchaeth wastraff i drin y gwastraff nad yw'n beryglus y mae'n ei gynhyrchu.
- 3.14 System rheoli gwastraff yw'r hierarchaeth wastraff, sy'n rhestru opsiynau yn ôl yr hyn sydd orau ar gyfer yr amgylchedd. Rhoddir blaenoriaeth i atal gwastraff yn y lle cyntaf. Pan gaiff gwastraff ei greu, rhoddir blaenoriaeth i'r gwaith o'i baratoi i'w aildefnyddio, yna ei ailgylchu, yna ei adfer, ac, yn olaf un, ei waredu (tirlenwi).
- 3.15 Mae Erthygl 4 o'r Fframwaith Gwastraff diwygiedig (Cyfarwyddeb 2008/98/CE) yn pennu'r hierarchaeth wastraff.



Atal
Paratoi ar gyfer aildefnyddio
Ailgylchu
Adfer trwy ddull arall
Gwaredu

Y Cod Eco

- 3.16 Mae'r Ganolfan wedi cymhwyso canfyddiadau'r Asesiad o Risgiau Amgylcheddol ac egwyddorion yr Hierarchaeth Wastraff, ac wedi mynd ati i ddatblygu ei Chod Eco ei hun.
- 3.17 Set o ymrwymadau yw'r Cod Eco, y mae Canolfan Cydweithredol Cymru wedi cytuno'n wirfoddol i'w dilyn er mwyn annog ymddygiadau sy'n gwarchod yr amgylchedd. Mae'r Cod Eco hefyd yn cynnwys targedau Gwella ar gyfer mesur gwelliannau o ran perfformiad amgylcheddol.

Ymrwymiad	Ymddygiad	Targed erbyn mis Rhagfyr 2019
Atal gwastraff ffisegol	<ul style="list-style-type: none"> • Gwirio'r hyn sydd eisoes ar gael cyn prynu eitemau newydd, e.e. deunydd ysgrifennu, nwyddau darvoudus, ac ati. • Hyrwyddo prosesau caffael a defnyddio cynhyrchion/gwasanaethau sy'n cael llai o effaith ar yr amgylchedd, e.e. papur wedi'i ailgylchu, cynhyrchion sydd â llai o ddeunydd pacio • Cadw cynhyrchion am gyfnod hwy • Defnyddio llai o bapur trwy: <ul style="list-style-type: none"> ○ ddefnyddio'r swyddogaeth 'rhagolwg argraffu' cyn argraffu ○ sicrhau bod gan bob aelod o staff god PIN er mwyn argraffu ○ argraffu ar ddwy ochr y dudalen yn ddiodyn ○ argraffu mewn du a gwyn yn ddiodyn ○ argraffu dim ond pan fo hynny'n hanfodol ○ annog pobl i ddod â gliniaduron neu dabledi Surface Pro i gyfarfodydd yn lle argraffu papurau ○ defnyddio system Lifesize AV i gyflwyno gwybodaeth i grwpiau yn hytrach nag argraffu papurau. • Cwblhau asesiadau risgiau tân ar gyfer holl safleoedd y Ganolfan er mwyn atal tân • Peidio ag archebu gormod o fwyd wrth drefnu bwffe (75% o'r gwesteion) • Rhoi unrhyw fwyd sydd dros ben o'r bwffe i'r staff 	Ceisio lleihau nifer y tudalennau a argreffir 5%.
Ceisio atal ynni rhag cael ei wastraffu/golli ac atal llygredd ynni	<ul style="list-style-type: none"> • Peidio â gadael tapiau yn rhedeg • Cadw drysau/fffenestri ar gau pan fydd y system aerdymheru ymlaen • Cadw drysau/fffenestri ar gau yn y gaeaf rhag i wres ddianc • Diffodd goleuadau, cyfrifiaduron, monitorau pan fyddant yn segur • Defnyddio Lifesize ar gyfer cyfarfodydd yn hytrach na theithio • Defnyddio cludiant gyhoeddus, neu gerdded, beicio neu rannu car pan fo hynny'n bosibl • Annog ymwelwyr i deithio mewn ffyrdd ecogyfeillgar neu i ddefnyddio cyfleusterau telegynadleda lle bynnag y bo hynny'n bosibl • Cwblhau asesiadau risgiau tân ar gyfer holl safleoedd y Ganolfan er mwyn atal tân 	Ceisio lleihau milltired busnes 5%

Ailddefnyddio	<ul style="list-style-type: none"> • Ailddefnyddio offer TGCh a ffonau symudol sy'n gweithio • Gwirio/glanhau/trwsio/adnewyddu a rhoi diben newydd i gynhyrchion cyfan neu gydrannau lle bynnag y bo hynny'n bosibl • Ailddefnyddio papur, amlenni, ffolderi, ac ati, lle bynnag y bo hynny'n bosibl 	Ailddefnyddio 100% o'r offer TGCh sy'n gweithio
Ailgylchu	<ul style="list-style-type: none"> • Ailgylchu deunyddiau megis papur, plastig, metelau, gwydr • Ailgylchu hen getris arlliw • Ailgylchu hen fatris mewn modd diogel • Ailgylchu offer TGCh, ffonau symudol, ac ati 	Ailgylchu 64% o'r gwastraff (yn unol â thargedau Llywodraeth Cymru)

Cyfathrebu Materion Amgylcheddol

- 3.18 Bydd y Ganolfan yn sicrhau bod y ddogfen hon yn cael ei chyhoeddi yn fewnol gyda pholisïau eraill, yn allanol ar ei gwefan ei hun, a hefyd trwy wefan Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd.
- 3.19 Bydd y Ganolfan yn cyfathrebu gwybodaeth arall sy'n ymwneud â materion amgylcheddol trwy'r Tîm Gwella Ansawdd, cyfarfodydd staff eraill, y fewnrwyd, cylchlythyrau staff, y Cod Eco, blogiau neu gyfrifon cyfryngau cymdeithasol, fel y bo'n briodol.
- 3.20 Anogir y staff i hyrwyddo arferion amgylcheddol da, ynghyd â'n hymrwymiad i wella ein perfformiad amgylcheddol ein hunain.
- 3.21 Yn Atodiad 1, amlinellir cyfrifoldebau cyffredinol sy'n gysylltiedig â materion amgylcheddol perthnasol ar gyfer staff ar bob lefel o'r sefydliad. Dylid nodi mai canllaw cyffredinol yw'r cyfrifoldebau a restrir. Nid ydynt yn gynhwysfawr.
- 3.22 Mae'r cyfrifoldebau ar bobl i ymddwyn mewn modd sy'n ymwybodol o'r amgylchedd nid yn unig yn berthnasol wrth weithio ar safleoedd y cwmni, ond maent hefyd yn berthnasol oddi ar y safle ac wrth deithio.

Gwelliant Parhaus

- 3.23 Mae'r Ganolfan hefyd wedi ymrwymo i wella ei rheolaeth a pherfformiad amgylcheddol yn barhaus.
- 3.24 Yn benodol, bydd y Ganolfan yn ceisio gwella:
- ei dealltwriaeth o'i heffeithiau amgylcheddol a'r ffyrdd y mae gweithgareddau dynol a gweithredol yn achosi'r rhain

- gallu'r sefydliad i fynd i'r afael â'r effeithiau amgylcheddol hyn
- y system reoli amgylcheddol ei hun
- perfformiad amgylcheddol mesuradwy (trwy dargedau).

Monitro a Gwerthuso

- 3.25 Bydd y Ganolfan yn monitro data perthnasol sy'n gysylltiedig â'i phrif feysydd a'i thargedau o ran effaith amgylcheddol, fel y'u pennir yn y Cod Eco.
- 3.26 Caiff cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a gofynion eraill eu gwirio a'u gwerthuso'n rheolaidd trwy'r Gofrestr Cydymffurfiaeth.
- 3.27 Os digwydd achos a allai gael effaith andwyol ar yr amgylchedd, bydd y Ganolfan yn adolygu ei gweithdrefnau presennol er mwyn sicrhau eu bod yn addas o hyd. Gwneir newidiadau yn ôl yr angen.
- 3.28 Mae'r ddogfen hon yn adlewyrchu ymrwymiad personol staff sy'n cefnogi ei hamcanion yn llawn, ac yn tynnu ar hynny. Disgwylir y bydd yr holl staff yn dilyn y polisi oherwydd yr ymrwymiad hwn. Fodd bynnag, os bydd unrhyw aelod o'r staff yn peidio â chyflawni ei gyfrifoldebau dro ar ôl tro, ystyrir hynny'n achos o dorri'r polisi hwn, a gall arwain at gamau disgyblu.

Adolygu

- 4.1 Caiff y ddogfen hon ei hadolygu'n flynyddol gan y Tîm Gwella Ansawdd a'r Tîm Uwch Uwch-reolwyr, neu yn gynharach os bydd yna unrhyw newidiadau perthnasol o ran y ddeddfwriaeth neu gydymffurfiaeth.
- 4.2 Cynhelir yr adolygiad nesaf ym mis Tachwedd 2019.

Llofnod y Prif Weithredwr:

D. Walker

Dyddiad:

22 Tachwedd 2018

Atodiad 1: Cyfrifoldebau Cyffredinol

Aelodau'r Bwrdd

- Cyfrifoldeb terfynol am bob agwedd ar reoli amgylcheddol.
- Cadarnhau unrhyw ddogfennau gweithdrefnol newydd.

Y Prif Weithredwr

- Cyfrifoldeb dirprwyedig am gyflawni pob agwedd ar reoli amgylcheddol.
- Cyfrannu at y gwaith o lunio unrhyw ddogfennau gweithdrefnol newydd.

Y Tîm Uwch-reolwyr

- Sicrhau bod materion amgylcheddol yn cael yr un sylw â'r holl benderfyniadau strategol neu weithredol eraill.
- Sicrhau, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol, fod trefniadau effeithiol ar waith i warchod yr amgylchedd.
- Sicrhau bod adnoddau priodol yn cael eu darparu fel y gellir cyflawni ymrwymïadau amgylcheddol.
- Sicrhau bod risgiau amgylcheddol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, a hynny gyda'r bwriad o bennu'r risgiau ar gyfer y sefydliad cyfan a mynd ati i'w lliniaru, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol, yn enwedig wrth ymgymryd â meysydd busnes newydd. Lle na ellir dileu risgiau, cânt eu hadolygu'n rheolaidd.
- Arwain trwy esiampl bersonol, a gosod safonau uchel ar gyfer y staff o ran rheoli amgylcheddol.
- Adolygu gwybodaeth amgylcheddol er mwyn monitro ac adolygu effeithiolrwydd y System Reoli Amgylcheddol, a hynny o leiaf bob blwyddyn neu yn dilyn newid sylweddol neu achos o ddiffyg cydymffurfio.
- Sicrhau cydymffurfiaeth gyffredinol â gweithdrefnau amgylcheddol y Ganolfan.

Y Tîm Rheolwyr

- Sicrhau bod materion amgylcheddol yn cael yr un sylw â'r holl benderfyniadau strategol neu weithredol eraill.
- Sicrhau, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol, fod trefniadau effeithiol ar waith i warchod yr amgylchedd.
- Sicrhau bod risgiau amgylcheddol yn eu meysydd cyfrifoldeb eu hunain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, a hynny gyda'r bwriad o bennu a lliniaru'r risgiau, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol. Lle na ellir dileu risgiau, cânt eu hadolygu'n rheolaidd a'u hadrodd i'r Tîm Uwch-reolwyr.
- Arwain trwy esiampl bersonol a gosod safonau uchel ar gyfer y staff o ran rheoli amgylcheddol.
- Sicrhau bod staff, yn eu meysydd cyfrifoldeb unigol, yn ymwybodol o weithdrefnau amgylcheddol y Ganolfan, yn cydymffurfio â nhw ac yn cyfathrebu unrhyw newidiadau.

Y Cynrychiolydd Rheolaeth Amgylcheddol ("Yr Unigolyn Cymwys")

- DS – Ar hyn o bryd, mae'r Rheolwr Adnoddau Dynol a Chymorth Corfforaethol yn ymgymryd â'r rôl hon.
- Rhoi'r System Reoli Amgylcheddol ar waith, a'i chynnal.
- Sicrhau bod y System Reoli Amgylcheddol yn cael ei hintegreiddio ar hyd a lled holl weithgareddau'r sefydliad.
- Sicrhau bod y Polisi Amgylcheddol yn gyfredol.
- Cydlynu amcanion, targedau a gwelliannau amgylcheddol.
- Monitro perfformiad a chymhwysedd amgylcheddol.
- Cyfathrebu materion amgylcheddol (yn fewnol ac yn allanol).
- Sicrhau bod y staff yn ymwybodol o gyfrifoldebau, ymrwymadau, rolau, awdurdodau a pherfformiad amgylcheddol.
- Adrodd i'r Uwch-reolwyr am berfformiad amgylcheddol y sefydliad ac effeithiolrwydd ei System Reoli Amgylcheddol.
- Gweithredu ar unrhyw adroddiadau am ddigwyddiadau, neu ymddygiadau, dulliau gweithio neu gyfarpar sy'n effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd, a rhoi camau unioni ar waith i'w hatal rhag digwydd eto.
- Adolygu'r Gofrestr Cydymffurfiaeth yn rheolaidd.
- Adolygu'r Gofrestr Risgiau Amgylcheddol yn rheolaidd.

Unigolion (yn weithwyr, staff asiantaeth, contractwyr ac ymwelwyr)

- Gweithio mewn modd sy'n ystyriol o'r amgylchedd a hyrwyddo'r ymagwedd hon ymhlith eraill, lle bynnag y bo hynny'n bosibl.
- Cadw at bolisi amgylcheddol y Ganolfan ac unrhyw weithdrefnau amgylcheddol sydd ganddi.
- Dilyn Cod Eco y Ganolfan.
- Rhoi gwybod i'r rheolwr llinell ar unwaith os byddant yn rhan o unrhyw ddigwyddiad sy'n effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd, neu'n gweld digwyddiad o'r fath.